Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'


CYF. 35. RHIF 9 CHWEFROR 2014 50c

# Gŵyl y Cyhoeddwyr 2013


***Ar Sadwrn, 2 Tachwedd yn Lerpwl cafwyd cyfle i gofio y Cyhoeddwyr (Isaac Foulkes, Hugh Evans a'i feibion a Cyhoeddiadau Modern) mewn Gŵyl a hir gofir***



*Dau gyhoeddwr yn sgwrsio*



*Mel Williams (Llanuwchllyn) yn traddodi y ddarlith gyntaf*



*Robart Arwyn, Seren y Cyngerdd*



*Mel Williams, Susan Evans, D. B. Rees (darlithydd) a Alun Evans*



*R. Ifor Griffith, Llywydd y Cyngerdd yn diolch am yr Ŵyl a phob darpariaeth arall*



*Alun H. Evans, cyfarwyddwr olaf Gwasg y Brython*



*Rhan o gynulleidfa hardd y Cyngerdd gan Robart Arwyn*

Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 2

Golygyddol

# DIOLCH AM ARLWY YR ANGOR – gan D. Ben Rees

Dymunaf ddiolch yn gynnes iawn i'r gohebwyr sydd gennym, am gynorthwyo o fis i fis ein papur bro. Daw adroddiadau cynhwysfawr gan Miss Mair Powell o Eglwys Bethel; Mrs Beryl Williams o Gymdeithas Cymry Lerpwl; Mrs Eirwen Sergeant o Gymdeithas Cymry Birkenhead; Mrs Marged Jones o Eglwys Seion, Laird Streert, Penbedw; Roderick Owen 'Cornel y Trysorydd' a'r Parchedig Eleri Edwards; Elwyn Evans a Mrs Anne Hunt o Gymdeithas Cymry Manceinion. Daw y rhain fel taro deuddeg, ni choller hwynt o gwbl ond pan ddaw seibiant y cymdeithasau, ond mae'r capeli yn dal i gofnodi ar hyd y flwyddyn. Dydi'r rhain byth yn bygwth streic (mae hynny bellach yn beth dieithr beth bynnag) nac yn gofyn am dreuliau na thâl am gludiant. Llafur cariad yw'r cyfan bron yn hanes *Yr Angor* er y rhifyn cyntaf yn 1979. Yr unig beth y medraf ddweud yw bod pob un a enwais yn meddwl yn uchel am fywyd eglwysi a chymdeithasau ac am gynhaliaeth y bywyd cyfoethog, amryliw Cymraeg sydd yn ein plith.

Gŵr diddorol yw Elwyn o Gaerffili, sef Elwyn Parry ac y mae yntau yn anfon bob mis fyfyrdod gwerthfawr a werthfawrogir. Ofnaf weithiau fod ambell i fyfyrdod wedi ei adael allan oherwydd diffyg lle, ond nid yw fy nghyfaill yn hapus o gwbl! Ond mae'n digwydd yn hanes y Golygydd hefyd! 12 tudalen sydd gennym a deg rhifyn y flwyddyn ac felly y mae'n bwysig cofnodi hanes talgyrch y papur bro yn gyntaf, sef gweithgarwch pobl y Glannau a Manceinion a'r cyffiniau, cyn Cofleidio Cymru, Myfyrdodau a'r erthyglau amrywiol.

Dibynnwn yn helaeth ar luniau gwych y Dr. John G. Williams sydd yn gwneud *Yr Angor* ganmil mwy derbyniol nag oedd *Y Bont* yn y saith degau. Ffotograffydd arall dibynnol yw Elwyn Evans o Fanceinion, ac yn ddiweddar cawsom luniau o eiddo Tim Evans, Lerpwl. Ond nid gwaith hawdd yw tynnu llun da, ac yn fy marn i mae'n well gadael llun allan os nad yw yn haeddu ei le. Y mae croeso i bwy bynnag a ddymuna anfon lluniau ac o dro i dro cawn lun hynod o drawiadol gan unigolyn ar wahân i'r rhai a enwyd.

Gŵr arall y mae gennym ddyled enfawr iddo ydyw y gwerinwr deallus, Ben Hughes, Childwall. Ef sydd yn anfon yn fisol trwy'r post 140 o amlenni yn cynnwys copi o'r *Angor* i bob rhan o Gymru a Lloegr. Gwaith pwysig a gyflawnir mor broffesiynol a gwn fod darllenwyr *Yr Angor* yn edrych ymlaen bob mis i'r *Angor* ddisgyn ar y carped trwy dwll y clo. Cynorthwyir ein Hysgrifennydd gan ein Trysorydd, sy'n cludo *Yr Angor* o Benllyn (Llanuwchllyn bellach) i Lerpwl, a'i ddobarthu i Penbedw, i ddwylo Mrs Mair Rees Jones, i Bethania, i ofal Mrs Nan Lewis, a gofidiwn ei bod hi ar ddechrau 2014 yn yr Ysbyty, i Alun Roberts ar gyfer Manceinion. Gofala Roderick Owen ei hun am anghenion De Lerpwl, siop Awen Meirion Y Bala, ac unrhyw ffynhonnell arall nad yw yn wybyddus i'r Golygydd. Mae diolch arbennig iawn yn fy marn i, yn ddyledus i'r Mri Roderick Owen a Ben Hughes. Buaswn i a Phwyllgor Gwaith *Yr Angor* wedi diflannu ers saith mlynedd onibai am ei gofal a haelioni darllenwyr *Yr Angor*, Bwrdd yr Iaith a bellach Llywodraeth Cymru, cymdeithasau a chapeli Manceinion a Lerpwl a chadeiryddion *Yr Angor* ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Cawsom wasanaeth enfawr erbyn hyn gan ein Cadeirydd, Hywel Jones, Barnston a fydd yn trosglwyddo'r awenau yn 2014 oherwydd gwaeledd. Da gwybod ei fod yn gwella. Gwelir golli cwmni E. Goronwy Owen, cyfaill triw, a Llywydd Anrhydeddus ein Pwyllgor Gwaith. Gwasanaethodd Mrs Anne Jones, Trefebin, Mrs Mair Jones, Childwall (anfon ein cofion i'r ddwy gan y bu 2013 yn flwyddyn anodd iddynt), Mrs Mair Rees Jones, Mri Ken Williams, Gateacre (gwelsom ei golli eto oherwydd ei ofal am ei briod a'i brofedigaeth) a ffarweliwyd gyda Mrs Lois Murphy a Mri Ron Gilford o Fanceinion a fu mor gefnogol, gan groesawu tri arall yn eu lle i'n plith, sef y Parchg. Eleri Edwards, Mrs A. Hunt a Elwyn Evans. Mae'r teithio i Bwyllgorau yn straen a bwriadwn ddefnyddio techneg fodern, cynhadledd y ffôn, i'n clymu o leiaf unwaith y flwyddyn gan ddechrau yn 2014. Diolchaf yn bersonol i bawb am ddiogelu *Yr Angor.* Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r adwy hyd 2016 ac felly awn ymlaen yn ffyddiog eleni eto, ond mae'n rhaid dal i gyfrannu yn llenyddol ac ariannol ein hunain.

# NODION AM YR ANGOR 2014

## Rhagor o Ddiolch

Cofiwn pan fu farw *Y Bont* yn 1978 oherwydd ymadawiad y Golygydd i Ddyffryn Conwy ein bod yn gwybod mai 500 oedd cylchrediad y cylchgrawn. Mae'n wir iddo yn y chwedegau gyrraedd cylchrediad hyd at 1,000 bron, ond – o 1960 hyd 1978 aeth y cylchrediad i lawr i'r hanner. Bu'r *Angor* a'i gylchrediad yn 450 yn yr wythdegau ond erbyn hyn y mae oddeutu 300. Y mae hynny yn wyrthiol mewn blwyddyn y diflannodd y *Liverpool Daily Post.* Ac fel cyhoeddwyr *Yr Angor* ymfalchïwn y byddwn ym Mehefin 2014 wedi goroesi pob papur Cymraeg a ymddangosodd erioed yn hanes Cymry Lerpwl, Penbedw a Manceinion, ie hirach na'r *Amserau, Y Cymro, Y Brython, Y Glannau* a'r *Bont.* Ond ni fyddai hynny yn bosibl heb gefnogaeth y Cymry a dderbyniai'r papur bro yng Nghymru ac ar lannau Mersi a Sir Gaer a Sir Gaerhirfryn, a hefyd ein Dosbarthwyr sydd yn gwneud gwaith graenus, a dycnwch ein Golygydd, Dr. D. Ben Rees.

### Apêl am Hysbysebion yn 2014

A wnewch chwi hysbysebu cyfarfodydd arbennig yr eglwysi a'r cymdeithasau, y bore goffi a'r ocsiwn yn *Yr Angor.* Mae'n sicr ei fod yn talu ac wedi'r cwbl ni fyddai gennym gyhoeddiad i hysbysu'n gilydd am ein gweithgareddau heb *Yr Angor.* Mae ein telerau yn hynod o resymol

**Tudalen gyfan £30; Hanner tudalen £30;**
**Chwarter tudalen £15**
**Llai na hyn, naill ai £10 neu £5.**

Rhoddwch wybod i'r Golygydd sydd hefyd yn trefnu'r hysbysebion am eich dymuniad. Diolch i'r rhai a fu'n hysbysebu yn 2013 - Pearson Collinson; Cyngor Llyfrau Cymru; Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi; Eglwys Bethel, Heathfield Road; Urdd y Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru a S4C. Dyna nhw. Gadewch inni gymell *Yr Angor* i Gymry yn ein plith a chymdeithasau a chwmniau nad ydynt yn derbyn *Yr Angor* ar hyn o bryd nac yn hysbysebu o'i fewn o flwyddyn i flwyddyn.


Yn ddiolchgar

*Cadeirydd, Golygydd, Trysorydd, Ysgrifennydd, a Phwyllgor Gwaith Yr Angor*

*1 Ionawr 2014*

# LLONGYFARCH IDWAL HUGHES, LERPWL

**Dathlodd Idwal Hughes ei ben-blwydd yn gant oed Tachwedd llynedd a chawom ni y Cymry yr hyfrydwch o'i groesawu ef a'i fab i Oedfa'r Adfent (y pedwerydd Sul). Llongyfarchwyd ef gan Mair Powell a Dr. D. B. Rees**



I am so pleased to know that you are celebrating your one hundredth birthday on 14th November, 2013. I send my congratulations and best wishes to you on such a special occasion.

Elizabeth R

Mr. Idwal Hughes

*Cyfarchion y Frenhines Elisabeth yr Ail*



*Eleanor ac Idwal Hughes*



*Idwal Hughes ym Methel ar 22-12-2013*



*Newyddion o*

# Lannau Mersi a Manceinion

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ein siaradwr ar nos Lun, Tachwedd 11eg oedd y Barnwr Eifion Roberts QC, Wrecsam, a phleser arbennig oedd ei groesawu ef a'i wraig, Buddug, i'n Cymdeithas.

Brodor o Sir Fôn yw'r Barnwr, wedi ei addysgu yn ysgol Ramadeg Biwmares, Prifysgolion Aberystwyth a Rhydychen. Cafodd ei alw i'r Bar yn 1953 a'i urddo fel QC yn 1957. Diddorol oedd clywed mai yma ym Mhenbedw yr eisteddodd fel Barnwr am y tro cyntaf, fel "Temporary Assistant Recorder" pan oedd y dref yn rhan o gylchdaith cyfreithiol Gogledd Cymru. Atgofion bywyd gweithgar, prysur ac amrywiol a gawsom gan y Barnwr, mewn arddull gartrefol, liwgar a llawn hiwmor yn ymestyn yn eang o'i blentyndod delfrydol mewn cartref diwylliedig, gweithgar i'w ddyddiau proffesiynol. Trwy'r atgofion, fe weodd sylwadau bachog am gymeriadau arbennig yng Nghymru, yn gantorion, a phregethwyr o fri gydag ambell ei stori buasai'n well ganddynt anghofio !! Talodd deyrnged arbennig i adran y gyfraith yng ngholeg Aberystwyth a'i bwysigrwydd yn addysg gyfreithiol y wlad yn gyffredinol.

Gwnaed y diolchiadau gan Mr Dafydd Roberts a gyfeiriodd yn arbennig at allu'r Barnwr i ddarlunio ei brofiadau mewn modd mor fywiog a ffraeth a rhoi i ni, noson gofiadwy.

Ym mhen pythefnos dyma ni fel Cymdeithas yn symud o fyd y gyfraith i fyd meddygaeth – byd mwy cyfarwydd â chyffredin i ni gyd. Wedi'r Barnwr, dyma'r meddyg yn dod i'n haddysgu a'n diddanu.

Pleser oedd croesawu Dr John Williams, Lerpwl i'n plith. Mae ei enw a'i ddarluniau yn gyfarwydd inni ac 'roedd gwrando arno yn olrhain cwrs ei fywyd yn fodd i'w adnabod yn bersonol.

'Roedd y pennawd gyntaf a welsom ar y sgrin yn hollol annisgwyl: "James Bond a'i ffrindiau" – beth tybed oedd o'n blaenau? Trwy gyfrwng anturiaethau'r arwr mentrus, a ffilmiau meddygol y pump a'r chwedegau, gwelsom linyn cyswllt yn gwau gwahanol elfennau ei gefndir, ei fagwraeth a'i addysg tuag at gyflawni uchelgais John i fod yn feddyg.

Magwyd Dr Williams ar aelwyd annwyl, Gristnogol gadarn, teulu Bryn Eilian Sir Fôn. O'i blentyndod 'roedd y capel yn rhan hanfodol o fywyd y teulu, fel y gwelir yn ymroddiad John drwy ei oes, i'w gred Gristnogol a'i wasanaeth i'w gapel.

Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Amlwch a Phrifysgol Lerpwl. Oddiyno, dechreuodd ei waith clinigol yn ysbytai C & A a Dewi Sant, Bangor cyn tra' nôl i'r glannau yn Broadgreen a Sefton nes cael ei benodi yn ymgynghorydd yn arbennigo mewn clefydau yr ysgyfaint, yn Ysbyty Halton, Runcorn o 1985 hyd at ymddeoliad. Diddorol oedd dilyn y newididau enfawr ym myd meddygaeth yn ystod gyrfa Dr. Williams a gwerthfaworgwn ymrwymiad meddygon, nyrsys ac arbenigwyr sydd yn cyfrannu at y driniaeth eang a'r gofal sydd ar gael yn ein dyddiau ni.

Mae balchder Dr Williams yn ei waith yn amlwg yn ei sgwrs; ond yn fwy na hynny ei ofal a'i wir gydymdeimlad tuag at gleifion sy'n deillio o'i alwedigaeth.

Gwnaed y diolchiadau gan y Parch Glenys Wilkinson yn cyfleu mwyniant pawb am noson addysgiadol a diddorol.

Mor gyflym mae rhan gyntaf y tymor wedi dod i ben a dyma ni ar drothwy'r Nadolig unwaith eto. Mae ein cyfarfod traddodiadol yn ein tywys at Ŵyl y Geni a bendith yw cael orig o ddistawrwydd o'r prysurdeb a'r miri oddiallan. Fe'n tywyswyd ni yn ein myfyrfod gam Mr Tom Thomas oedd yn gyfrifol am y darlleniadau, a chan Phyllis a Terry O'Neill a ddewisodd y carolau, gyda Terry yn cyfeilio. Clywsom ddarlleniadau o'r Ysgrythur gan Eira a Victor, ac o waith ein beirdd gan Olwen, Mair, Dafydd, Trefor a Tom

Cawsom gyfle i ganu carolau adnabyddus rhwng y darlleniadau. Roedd yn gyfarfod meddylgar a dwys, gyda fflachau o hiwmor. Bob oedd llywydd y noson, Megan Roberts a ofalodd am y diolchiadau i bawb, a merched y pwyllgor oedd yn gyfrifol am y te a'r danteithion tymhorol.



*Cymdeithas Cymry Birkenhead*

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Bu Cinio'r Nadolig ar 8 Rhagfyr yn y Royal Hotel, Waterloo yn llwyddiant a threfnwyd y cyfan gan Mrs Elin Boyd a Mr. Jim Boyd a daeth 21 ynghyd i fwynhau'r ddarpariaeth, a diolchwn oll am y caredigrwydd a estynnwyd i gynifer ohonom. Cyflwynodd y Parchg. Margaret Quayle weddi cyn y wledd a chafwyd gair o ddymuniadau da gan Dr. D. Ben Rees a diolchiadau cyn ymadael am 3.30 gan Mr. John P. Lyons. Da oedd gweld Mrs Menna Edwards a Miss Dorothy Williams wedi medru dod atom ar ôl gwaeledd. Clywsom am ddyweddïad Miss Bethan Cunningham (wyres Mrs Menna Edwards) sydd mewn swydd allweddol yn Llundain. Bu'r Gweinidog a J. P. Lyons a Marian yn ymweld â Glenys Jones yn y cartref yn Old Swan a gyda Miss Katie Roberts yn y cartref ger Parc Stanley yn Anfield. Y ddwy mewn hwyliau da ac yn anfon eu cofion at eu cyd-Gristnogion ar aelwyd Eglwys Crist. Chwith am waeledd ein horganyddes Mrs Nan Lewis, Litherland a'i bod yn Ysbyty Fazarkley dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gwelsom ni ein gilydd yn y Cinio Blynyddol. Yn yr un Ysbyty ers pum wythnos y mae Miss Megan Williams, Mersey Road. Cafodd un llawdriniaeth ac mae'n disgwyl triniaeth arall cyn dod allan, ac felly bydd yn rhaid iddi aros am beth amser eto. Gwraig ddiwylliedig ydyw, yn arbenigwraig ar y Clasuron. Da oedd ei gweld yn darllen pan fu'r Gweinidog ar ymweliad â hi.

Newydd da yw fod cyfrol Bethania wedi gwerthu allan a deil yr archebion i ddod i fewn. Llongyfarchwn John P. Lyons a'r cyhoeddwr, Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf., am lwyddiant y fenter. Mwynhaodd nifer o Fethania Cyngerdd Undeb Gorawl er yn siomedig am anallu Huw Edwards i ddod atom, ond da deall y bydd ef yn cyflwyno y Cyngerdd yn 2014, a hynny ar bnawn Sul, Rhagfyr 14 yn Neuadd Philharmonig, Lerpwl am 2.30 o'r gloch. Rhoddwn y dyddiad yn ein dyddiaduron.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Ar drothwy y Nadolig cafodd dwy o'n haelodau brofedigaeth sef Mrs Sarah Davies, bu farw ei chyfnither oedd yn byw yn Minffordd, a bu farw cefnder i Mrs Morfydd Willams oedd yn byw yn Rhosllannerchrugog. Cydymdeimlwn â'r ddwy fel Eglwys yn eu trallod a'u hiraeth.

Pnawn Sul, 22 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth o Garolau a Myfyrdodau. Hyfryd oedd cael croesawu Mr a Mrs Bob Jones a Mr. Robert Powell i'r gwasanaeth. Diolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth. Roeddynt yn affaeliad mawr hefo'r canu. Diolch i Mr. Gwyn Tudor Owen, a fu yn brysur iawn yn cyfeilio. Llywyddwyd gan Miss Iris Hughes-Jones, Llywydd y mis ac Iris ddarllennodd rhan o'r ysgrythur. Offrymwyd Gweddi a lediwyd dwy garol gan Mrs Mair Rees-Jones. Cafwyd myfyrdod ar y garol "Gorwedd Mewn Preseb" gan Mrs Eunice Powell, ac fe'i canwyd. Yna myfyrdod ar "Clywch lu'r Nef" gan Mrs Phyllis O'Neill ac fe'i canwyd ynghyd â charolau eraill.

Cafwyd darlleniad gan Mrs Olwen Jones o "Caned y Clychau" ac fe offrymwyd gweddi ganddi a chanwyd rhagor o garolau. Cyhoeddwyd y fendith gan y Llywydd.

Diolch i'r pump ohonynt am eu parodrwydd i gymryd rhan, ac roedd y cyfan gyda graen ac yn glywadwy. Dymuniadau gorau i bawb yn eu gwahanol feusydd y flwyddyn newydd hon.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Yn nechrau mis Tachwedd cawsom sgwrs yn Saesneg gan Huw Lewis Jones sydd yn feddyg yn Ysbyty Aintree, Lerpwl. Mae'n enedigol o Ddolgellau a'i ddiddordeb yw arlunio. Bydd darllenwyr 'Yr Angor' yn cofio mai Huw gomisiynwyd gan Eglwys Bethel i



*Dr. Huw Lewis a'r Cadeirydd, Eryl Chitty*

baentio llun y Gweinidog yn gynharach eleni. Amlinellodd y dylanwadau a fu arno i ennyn ei ddiddordeb mewn arlunio fel ei athro yn Ysgol Wallington, Llundain a'r arlunydd Kyffin Williams ymysg eraill. Ei hoff ffordd o baentio yw gyda phaent olew a gwelsom nifer o enghreifftiau o'i waith. Hefyd cawsom weld y ffordd y mae'n datblygu llun gan ddechrau gyda tynnu llun gyda camera, gwneud amlinelliad gyda phensil, ychwanegu lliw du am gysgodion ac uchafbwyntiau ac yna ychwanegu y lliw.

Mae'n hoff iawn o baentio yn ardal Dolgellau ac ardaloedd eraill ym Meirionnydd, ond hefyd mae'n paentio portreadau a llefydd yn Lerpwl. Ceir mwy o wybodaeth am ei waith ar ei wefan sef www.hljart.co.uk



*Margaret ac Alan Williams*

Yr wythnos wedyn cawsom cyfle i gael sgwrs dros paneidiau o dê a choffi gyda danteithion blasus yn nghartref Margaret Anwyl Williams a'i theulu. Mae nosweithiau fel hyn yn bleserus. Gwnaed elw tuag at y Gymdeithas.

Daeth Walter Williams a'i wraig Gwenda atom o Sir Fôn atom ar y trydydd nos Fawrth ym mis Tachwedd. Fe'i magwyd yn Llanddeusant ac aeth i ysgol Sir Thomas Jones, Amlwch. Penderfynodd adael yr ysgol pan yn 15



*John Williams a Walter Williams*

mlwydd oed er mwyn gweithio yn siop y teulu ond sylweddolodd fod yr archfarchnadoedd a oedd yn dechrau'n ymddangos ym Môn yn bygwth dyfodol y siopau bach. Trodd ei fryd ar yrfa yn y Gwasanaeth Sifil. Dechreuodd yng Nghaergybi yn yr Adran Pensiynau ac yna symudodd i Sir Benfro. Er mawr syndod iddo cafodd ei ddewis i fod yn rhan o Adran Iechyd y Llywodraeth yn Llundain. Cawsom hanes ei yrfa yn yr



*Canu Carolau yng nghartref Kath Norton yn Woolton*

Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 6

Adran Iechyd yn gweithio gyda amryw o Ysgrifenyddion a Gweinidogion adnabyddus yr Adran fel Syr Keith Joseph, Kenneth Clarke, Barbara Castle ac Edwina Currie. Wedi ymddeol bu'n gweithio gyda Age Concern cyn ymddeol yn llwyr yn 2009. Noson braf a hwyliog gyda person diymhongar oedd yn ysgwyddo llawer o gyfrifoldeb yn un o adrannau pwysicaf y llywodraeth.

Ar y nos Fawrth olaf o'r mis daeth y Parch. D. Ben Rees a Mrs. Meinwen Rees atom a chawsom hanes eu gwyliau gyda'r teulu yn Israel i ddathlu eu priodas aur yn ystod mis Mai diwethaf. Ers 1973 mae ein Gweinidog wedi bod yn Israel ugain o weithiau, unwaith yn llai na Mrs. Rees. Bu'n dangos lluniau o'r daith eleni a rai o'r teithiau blaenorol. Cawsom weld rhai o aelodau'r Eglwys yn nyddiau eu hieuenctid!

Yn ystod ei anerchiad buom yn ymweld a Jeriwsalem a'r Eglwys 'The Dome on the Rock' a wâl y wylofain. Gwelsom luniau o'r Môr Marw, Masada a'r Golan Heights, rhan o'r wlad a gipwyd gan Israel oddiar Syria yn ystod Rhyfel y chewch diwrnod yn 1967. Clywsom am Gapernaum lle bu Iesu Grist yn dethol ei ddisgyblion, Mynydd Tabor a Cesarea lle cychwynodd yr Apostol Paul ar ei daith olaf i Rufain. Fel Thomas gynt roedd haws gwerthfawrogi y llefydd ar ôl eu gweld ar lun.

I ddiweddu'r noson gwelsom luniau o Kibbutz Yardenit, Galilea ar lan yr afon Iorddonen, mangre lle y tybir i Ioan Fedyddiwr fedyddio Iesu Grist ac eraill. Gosodwyd yr hanes yma (Marc 1:9-11) ar furiau y kibbutz mewn gwahanol ieithoedd ond dim yn y Gymraeg. Fe symbylwyd ein Gweinidog i geisio codi £3300 er mwyn cael gweld yr hanes ar y muriau yn ein hiaith. Mae £1300 wedi ei casglu yn barod ac gobeithir cau yr apêl ar Fawrth 1af 2014.

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Gymdeithas ym mwyty y 'Patio'. Mae'r achlysur yma yn un o uchafbwyntiau rhaglen y Gymdeithas a daeth dros dri deg o aelodau i'r noson. Rhoddwyd anrheg i Norma, ysgrifenyddes y Gymdeithas, fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am ei gwaith yn trefnu'r noson a rhaglen y flwyddyn.

Naws y Nadolig oedd thema cyfarfod olaf y rhan yma o'r tymor a gymerodd le yn nhŷ Kath a John Norton. Cawsom llawer o danteithion Nadoligaidd oedd wedi cael eu paratoi ac wedyn cafwyd cyfle i ganu carolau.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr 'Yr Angor' oddi wrth y Gymdeithas.

# *CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION*



***Criw yn disgwyl y darlithydd***

## *Apêl sydd i lwyddo?*

**APÊL ARIANNOL GAN Y PARCHEDIG DDR. D. BEN REES, LERPWL I'W GYD-GYMRY.**
**MUR CYMRAEG AR LAN AFON IORDDONEN YN ISRAEL.**

Ar bnawn godidog, Mai 30, 2013 bu i ni fel teulu fwynhau'n fawr iawn yr olygfa ar lan afon lorddonen yn Kibbutz Yardent yn nhalaith Galilea, lle tybia rhai i Ioan Fedyddiwr fedyddio Iesu a llawer o bobl eraill. Sylwais fod bellach ar y muriau blaciau mawr mewn o leiaf 50 o ieithoedd gwahanol, yn cynnwys Saesneg, Swahili, Gaeleg yr Alban, Hwngareg. A daeth i'm meddwl y dylid gosod arnynt yr adnodau o Efengyl Marc (pennod 1, adnodau 9-11) yn Gymraeg fel yn yr ieithoedd eraill.

Gwneuthum ymholiadau ar fy union, a chael cyfarwyddyd ynghylch sut i fynd ati a beth fyddai'r gost o gyflawni'r weithred hardd hon o anrhydeddu ein hiaith, a fyddai'n rhoi statws i'r Gymraeg mewn mangre sy'n denu pererinion o bob rhan o'r byd.

Dyma'r costau. Telir y swm o £1,000 i'r cerflunydd yn Jerwsalem i gerfio yn hardd y llythrennau yn Gymraeg ar y plac; £2,300 i'r Kibbutz am yr hawl i osod y plac helaeth ar fur a baratowyd, a hynny am byth bythoedd. Eisoes derbyniais £1,300 oddi wrth aelodau Capel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl a thri arall o'r tu allan i'r gymuned; ac felly mae angen swm go fawr i gwblhau'r weledigaeth, dwy fil o bunnoedd eto.


Estynnaf wahoddiad caredig i bob un sy'n dymuno cyfrannu i anfon ei enw a'i gyfeiriad ynghyd â siec neu arian rhydd ataf i 32 Garth Drive, Lerpwl, L18 6HW, erbyn (man pellaf) Dydd Gwyl Ddewi 2014. Cawn gyfle'r diwrnod hwnnw yn Aigburth, Lerpwl i ddatgelu'r sefyllfa i'r cyfryngau a charedigion yr iaith. Cyhoeddir gwybodaeth am y cyfraniadau yn *Yr Angor*, papur bro Glannau Mersi a Manceinion, rhifyn Ebrill 2014.

Ar ôl Mawrth 1, byddaf yn cysylltu â Yardent i ddechrau'r broses o baratoi'r Mur Cymraeg yng Ngalilea'r Cenhedloedd, i'w ddadorchuddio erbyn canol 2015. *(gweler y plac Saesneg)*

Llawer o ddiolch yn rhwymau ein cenedl, ein hiaith, a'n treftadaeth grefyddol.

Mae Eglwys Bethel wedi cytuno i dderbyn a gweinyddu'r cyfraniadau, ac felly dylid gwneud sieciau yn daladwy i **'Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl'.**

*Yn ddiolchgar,*
***Dr D. Ben Rees,***
***Trefnydd yr Apêl.***



# Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Rydym fel Cymdeithas Lenyddol wedi cael nosweithiau diddorol iawn yn clywed gan Dr. Pat Williams am arlunwyr o'r Eidal, o Sbaen ac o sawl gwlad aralll, ond ar nos Lun 11 Tachwedd cawson noson arbennig iawn yn clywed am 'Ddyrnaid o Arlunwyr Cymreig'. Defnyddiwyd y 'Power Point' gyda'r sgrîn newydd sydd yn y Ganolfan a chawsom weld darluniadau ardderchog. Yr arlunydd cyntaf y clywsom amdano oedd Richard Wilson (1714-1782) o Sir Drefaldwyn. Un o gryfderau Richard Wilson oedd ei ddawn arbennig wrth baentio croen. 'Roedd ei lun, Morwyn Anrhydeddus a'r llun o Fachgen Anhysbys yn dangos hyn. Astudiodd am beth amser yn Yr Eidal. Gwelsom lun o Polyphemus, cawr unllygeidiog mewn chwedl a Hela Actaeon gan Diana. Gwelodd Wilson ddau dirlun gan Claude Lorrain, sef Hagar a'r Angel a Narcissus ac Echo. Paentiodd Wilson dirlun o Ddinistr Plant Niobe ym 1760 ac un o Diana a Callisto. 'Roedd gwers i'w dysgu yn llawer o'r lluniau hyn. 'Roedd llun ganddo o Bont Holt sydd ger Wrecsam ac un o Gastell Cilgeran. 'Roedd yr arlunydd Turner yn meddwl yn uchel o waith Richard Wilson a gwnaeth ef ddarlun o'r un bont. 'Roedd Y Wyddfa o Ddyffryn Nantlle yn werth i'w weld ac hwyrach yn ddarlun mwyaf poblogaidd Richard Wilson. Bu farw'r arlunydd ym 1782 a chladdwyd ef yn Y Wyddgrug.

Un arall y gwnaethom fwynhau clywed amdano a gweld ei waith oedd Augustus John a fu'n ddarlithydd mewn Celf yma ym Mhrifysgol Lerpwl. 'Roedd llun ohono, sef Brenin Bohemia (1900) gan Sir William Newenham. Ym 1897 cafodd Augustus John ddamwain a newidiodd ei bersonoliaeth. Aeth i'r Slade yn Llundain ac ennill prif wobr gyda'i ddarlun Moses a'r Sarff Bres. Bu ei fam farw pan oedd ef yn ifanc iawn, a'i dad wedi hynny yn isel ei ysbryd ac wedi ymddeol cyn bod yn ddeugain oed. Ar ddiwrnod ffair, ni adawai i'r plant fynd allan o'r tŷ rhag ofn iddynt gael eu cipio gan y Sipsiwn. Yn rhyfedd iawn, bu Augustus John yn byw gyda'r Sipsiwn am gyfnod. Aeth i Ffrainc i astudio, ond gyrrwyd ef gartref am iddo fod yn cwffio! Ymhen amser, daeth yn arlunydd mwyaf adnabyddus Prydain. Gwelsom ei ddarlun o'r Arglwydd Leverhulme ac hwyrach yr un mwyaf adnabyddus, sef darlun o Dylan Thomas a'i wraig Caitlin. 'Roedd hefyd bortreadau o George Bernard Shaw, Lawrence o Arabia a Thomas Hardy, tirlun o fynyddoedd Cymru ac un o lynnoedd Cymru, a gwelsom lun ohono yn hen ŵr gan Irving Penn.

Bu Gwen John, chwaer Augustus, yn Academi Slade hefyd, ond ni chafodd y clod oedd yn ddyledus iddi yn ystod ei bywyd, ond yn hytrach ar ôl ei marwolaeth. Dywedir iddi fod yn well arlunydd hyd yn oed na'i brawd. 'Roedd hunan-bortread ohoni, llun o Dorelia, sef ail wraig Augustus yn Toulouse a llun o Gornel Ystafell y bu'n byw ynddi ym Mharis. Bu mewn perthynas â Rodin, a phan ddaeth y berthynas i ben dioddefodd o iselder ysbryd. Nid oedd awydd mynd allan arni, ond ai i ymweld â lleianod. 'Roedd darlun ganddi o Mere Marie Poussepin (1913). Bu'n ffodus iawn o'r ffaith i Americanwr o'r enw John Quinn a fu'n gyfaill i'w brawd brynu pob darlun o'i gwaith. Wedi ei farwolaeth ef 'roedd pethau'n wahanol iawn. Bu farw Gwen John yn Dieppe yn y flwyddyn 1939.

Yr arlunydd olaf y clywsom amdano oedd Christopher Williams (1873-1934). Ganwyd ef ym Maesteg. Wedi gweld y llun Perseus ac Andromeda yn Oriel y Walker yma yn Lerpwl, penderfynodd fod yn arlunydd. Ei lun cyntaf oedd Poalo a Francesca (1902), llun a arddangoswyd yn yr Oriel Frenhinol.'Redd portread o Evan Williams a llun o Arwisgo Edward yn Dywysog Cymru yn 1913. Ym 1911 gwnaeth bortread o Lloyd George ac ym 1917 lun erchyll o Ryfel Mametz Wood. 'Roedd lluniau o gymeriadau o'r Mabinogion fel Ceridwen, Branwen, Blodeuwedd a Gwenllian. 'Roedd clywed hanes rhai o'r chwedlau gan Dr. Pat Williams yn dod a'r lluniau yn fyw i ni. Mae'n diolch yn fawr iddi am noson mor addysgiadol a diddorol.

Bu noson o Holi ac Ateb yn y Gymdeithas Lenyddol ar nos Lun, Tachwedd 25 pryd yr oedd Dr. D. Ben Rees yn holi Mr. Neil Wyn Jones o Gilgwri. Y llywydd oedd Mr. Roderick Owen. Cawsom groesawu Mam Neil atom hefyd, sef Mrs Olwen Roose Jones o Gapel Seion, Penbedw. Darllenodd Dr. Rees beth o waith taid Neill, Mr. Glyn Roose Williams a gyd-oesai â Saunders Lewis. Holwyd Neil am ei fywyd. Siaradai Gymraeg pan yn ifanc iawn cyn mynd i'r ysgol. Bu'n chwarae mewn band pan yn ei arddegau. Bu perthynas iddo'n chwarae pêl-droed i dîm Everton. 'Roedd diddordeb mawr ganddo mewn gwaith coed, dysgodd am y gwaith a dechreuodd weithio iddo'i hun fel saer coed. 'Roedd yn ddiddorol iawn clywed iddo wneud y pulpud hardd sydd yn festri capel Seion, Penbedw, er cof am ei daid. Gwnaeth hefyd gadair i Eisteddfod Lerpwl, cadair a enillwyd gan Mr. Aled Lewis Evans, Wrecsam.



*R. Owen, Dr. D. B. Rees, Neil Wyn Jones a'i fam, Olwen Roose Jones, Wallasey*

Mae'n wastad wedi bod â diddordeb yn yr iaith Gymraeg, ac yn bresennol mae'n dysgu pump neu chwech o ddosbarthiadau Cymraeg yng Nghilgwri ac yng Nghymru.

Roedd yr holi'n ddiddorol a chlywsom ei fod yn hoff iawn o ddarllen Cymraeg. Soniodd am gyfres gan Bethan Gwanas ac am hunan-gofiannau. Mae'n well ganddo wrando ar raglenni Cymraeg ar y radio yn hytrach nag edrych ar S4C er ei fod yn siwr fod y teledu'n help i ddysgwyr. Ymgeisiodd am Ddysgwr y Flwyddyn ac yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam aeth drwodd i'r pedwar olaf. Mae'r beirniaid yn edrych ar y cyfraniad a wnant i'r gymuned Gymraeg. Mae'n falch ei fod yn dod o'r un cylch â Saunders Lewis, er nad oedd o'n boblogaidd iawn gyda phawb oherwydd iddo adael Protestaniaeth am Eglwys Rufain. Soniwyd am Gymro neu Gymraeg mwyaf y canrifoedd. Enwodd Dr. Rees rai fel Lloyd George, Aneurin Bevan a T. Gwynn Jones. Cytunodd Neil a dywedodd ei fod yn edmygu Owain Glyndŵr ac yn bresennol, Nic Parry, barnwr a chyflwynwr teledu sydd hefyd yn rhoi sylwebaeth pêl-droed. 'Roedd yn cyd-weld â syniad Dr. Rees o osod plac yn y Pier Head yn y flwyddyn 2015 i gofio'r Mimosa, a theimla'n bositif ynglŷn â dyfodol yr iaith Gymraeg yng Nghymru ac ar Lannau Mersi. Dymunwn yn dda iddo hefo dysgu'r iaith Gymraeg i'w gydoeswyr.

Drwg iawn gennym glywed am farwolaeth y Parchedig John Watkin, Deganwy. Cydymdeimlwn yn fawr âi weddw ac hefyd gydag un o'n haelodau yma ym Methel, sef Mrs Mair Roberts, Mayville Road. Mae Mrs C. Watkin yn fodryb i Mair.

Cawsom Suliau hyfryd yn ystod Tymor yr Adfent. Ar brynhawn Sul cyntaf yr Adfent, sef Rhagfyr 1, gwahoddwyd ni i gartref Dr. Pat Williams, Awelon, Menlove Avenue North i De'r Adfent. 'Roedd awyrgylch hyfryd yn Awelon. Goleuwyd cannwyll gyntaf yr Adfent gan Mrs Meinwen Rees a chawsom hefyd ddarlleniad pwrpasol ganddi. Mwynhawyd y te gan bawb. 'Roedd y prynhawn yn llwyddiant mawr gan y gwnaethpwyd elw o £500, swm ardderchog i'w roi tuag at osod plac yn yr iaith Gymraeg ar lan yr Iorddonen lle y tybir i Iesu Grist gael ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr. Mae'n diolch yn fawr i Dr. Pat Williams ac i bawb am eu haelioni.



*Meinwen Rees yn cynneu'r gannwyll yn Nhe'r Adfent*

Ar fore Sul Rhag. 8 trefnwyd Oedfa o Ddarlleniadau a Charolau gan Dr. D. Ben Rees. Cymerwyd rhan ganddo ef a chan aelodau o'r Eglwys, yn cynnwys pump o bobl ifanc. Roeddym yn falch o gael croesawu merch ifanc o'r India fu'n gweithio gyda Dr. John G. Williams. Cafwyd oedfa debyg gyda darlleniadau, myfyrdodau a charolau ar fore Sul Rhagfyr 15, gyda chyfle arall i aelodau'r Eglwys gymeryd rhan. Yn y prynhawn mwynhawyd Cyngerdd Carolau Undeb Gorawl Cymry Lerpwl yn Neuadd y Philharmonic, gyda Gordon Burns yn cyflwyno'r eitemau yn absenoldeb anorfod Huw Edwards.

Y noson ganlynol cawsom arweiniad campus at y Nadolig mewn cyfarfyddiad o'r Gymdeithas Lenyddol. Cyflwynwyd 'Ar Drothwy'r Nadolig' gan Mrs Nan Hughes Parry. Dywedodd Nan ei bod yn amser i galon dyn feirioli gyda'r pleser o roi a derbyn, y cwmni a'r gwledda. Clywsom am bentref Woolton wedi ei addurno gan ŵr o'r enw Ged Comerford a'i gyfeillion, a chlywsom amdanynt hefyd ar y teledu, wedi cael eu dewis i addurno coeden Nadolig Bethlehem – *"A North West team chosen to decorate the most famous tree in the world: the boys from Wavertree taking the baubles to Bethlehem."* 'Roeddynt hefyd yn addurno Camp Bastion yn Afghanistan. Cawsom glywed barddoniaeth hyfryd a chlywsom am y rhyfel rhwng y stryd Fawr a'r Wê ynglŷn â gwerthu anrhegion Nadolig ac am berfformiadau plant mewn dramâu Nadolig. 'Roedd aml i ddarlleniad hwyliog ac roedd un gan Geraint Lovgreen, 'Nadolig 1965'. Ychydig iawn o blant heddiw sy'n gwybod mai pen-blwydd Iesu Grist yw'r Nadolig. Maent yn enwi sawl "celebrity" pan gânt eu holi. Ond fel y dywedodd Nan, "Beth am i ni heno ddathlu Duw yn anfon ei fab amhrisiadwy at ddynol-ryw." Canwyd "O Dawel ddinas Bethlehem". Cawsom fwy o ddarlleniadau yn cynnwys "Mae Angen Nadolig". Mae gwir angen gras a gwirionedd ar fyd sydd yn credu mewn "llygad am lygad a dant am ddant." Canwyd "Draw yn nhawelwch Bethlem dref" a diweddodd Nan trwy ddarllen llythyr am y Nadolig, ac mewn cromfachau "Diolch i Paul". Roedd hon yn noson ardderchog ac mae'n diolch yn fawr i Mrs Nan Hughes Parry ac hefyd i Mrs Gwenfyl Bain, Mrs Lilian Coulthard, Miss Carys Jones a Mrs Enid Pierce Hughes oedd wedi partatoi gwledd Nadoligaidd i ni ar ddiwedd y cyfarfod.



*Nan Hughes Parry yn ein harwain i'r Nadolig*



*Y Gymdeithas Lenyddol yn mwynhau hiwmor Nan*

'Roedd awyrgylch arbennig y Nadolig yng ngwasanaeth bore Sul, Rhagfyr 22. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol an Dr. D. Ben Rees. Cawsom ganu hyfryd gan Mrs Anne M. Jones, Mrs Margaret Anwyl Williams a Mr. R. Ifor Griffith, gyda Margaret yn cyfeilio. Cawsom linell gyswllt rhwng pob carol gan Dr. Rees a roddodd ffeithiau diddorol i ni am awduron y geiriau a'r tonau. Cawsom glywed Fendigaid Fam, Seren Nadolig, Carol Catrin, Ave Maria a Gŵyl y Baban. Cymerwyd rhan hefyd gan Gantorion Bethel dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Canwyd tair carol sef Llanbedr, Cofio Crist a Hwiangerdd Mair. Daeth cynulleidfa gref ynghyd, yn cynnwys ein cyfeillion o Fethania, rhai o'n pobl ifanc gartref dros y Nadolig a gŵr oedd yn gant oed, sef Mr. Idwal Hughes, yn wreiddiol o Gaergybi a drodd i mewn gyda'i fab Richard. 'Roedd yn edrych yn dda iawn a gobeithiwn gael ei weld eto.'Redd cyfeillion Saesneg wedi ymuno â ni ac un ohonynt yn dweud, "I like to hear the singing and to listen to the language". 'Roedd wedi gweld hysbyseb Dr. John Williams ar y wê, ac mae'n dda meddwl y gall hyn ddod a mwy o bobl i mewn. Cafwyd Bore Goffi yn y Ganolfan ar derfyn yr oedfa a gwelsom wyrion ac wyres bychain Mr. Tim a Mrs Wena Evans.

Cynhaliwyd gwasanaeth o Ddarlleniadau a Charolau ar fore'r Nadolig. Trefnwyd hyn gan Dr. Pat Williams a Dr. John Williams ac mae'n diolch yn fawr i'r ddau.

Ar ddiwedd blwyddyn arall yn ein hanes, dymunwn fel aelodau ddiolch yn fawr i'n Gweinidog, Dr. D. Ben Rees am ei holl waith drwy'r flwyddyn a dymunwn iddo ef, Mrs Meinwen Rees a'r teulu a holl ddarllenwyr *Yr Angor* flwyddyn newydd dda.

Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 9

# DATHLU'R NADOLIG YM METHEL, LERPWL

*Sul, 22 Rhagfyr*



**Cantorion Bethel**



***Joshua (mab Bethan)***



***Willow (merch Ffion)***



***Y bythol ifanc E. Goronwy Owen yn rhannu cyfrinachau gyda Marian Lyons (Knowsley) a Iona James (Aintree) ar derfyn yr Adfent***



***Bethan, Mair a Gareth Roberts a Sara Williams***

## PLANT YR EGLWYS AR FORE'R NADOLIG



***Mair Powell yn bwydo dros hanner cant o addolwyr ar derfyn yr Oedfa***



***Elin Roberts – a dderbyniodd swydd yng Nghaeredin – dymunwn yn dda iddi***



***Nia a'i theulu o Llanddoget***

Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 10

# CYNGHERDDAU NADOLIG UNDEB GORAWL CYMRY LERPWL


Bu y Côr yn brysur iawn trwy dymor yr Adfent. Cynhaliwyd tri chyngerdd ganddynt: un yng Nghilgwri, y llall ar gais Dinas Lerpwl yn Neuadd Sant Siôr a'r olaf yn Neuadd y Philharmonic, Lerpwl a'r tŷ yn llawn. Bu canmol ar y canu a'r holl gyflenwad cerddorol, a gwnaeth Gordon Burns ei waith yn dda yn absenoldeb Huw Edwards yr oedd disgwyl mawr amdano.



*Cyngerdd yn Neuadd San Siôr*



*Pnawn Sul yn y Philharmonig*




*Tim Evans yn y Phil*



***Dr. Lowri Rowlands a'i chwaer Carys Williams ym Methel ar fore'r Nadolig. Cymerodd y ddwy ohonynt ran yn yr oedfa***

# Dal i Garu'r Iaith

Cafodd Sarah Hattle, enillydd rhaglen deledu S4C Cariad@Iaith 2013, gyfle i barhau â'i hastudiaethau'n ddiweddar. Ei gwobr am ennill y rhaglen oedd mynychu cwrs pum niwrnod yng Nghanolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn a manteisiodd ar y cyfle ym mis Tachwedd.

Mae Sarah, sy'n byw yn Swydd Hampshire ond sydd â thŷ yn Nolgellau, yn bwriadu symud yno gyda'r teulu o fewn rhai blynyddoedd. Mae hi'n gweithio i'r Llynges Frenhinol, ac yn briod gyda thri o blant, Mali, Iolo ac Otto.

Ers ennill Cariad@Iaith mae hi wedi bod yn gweithio ar ei Chymraeg a mynychodd gwrs lefel Sylfaen yn y Nant. Dywedodd y tiwtor, Pegi Talfryn, "Roedd brwdfrydedd ac ymroddiad Sarah yn ysbrydoliaeth i bawb oedd ar y cwrs. Roedd hi wedi paratoi'n drylwyr o flaen llaw – mewn gwirionedd roedd hi bron yn barod ar gyfer y lefel nesaf i fyny – ac yn medru ymdopi â phob sefyllfa yn y dosbarth ac wrth siarad Cymraeg yn y gymuned."

Yn ôl Sarah, "Dw i teimlo'n lwcus iawn i ddod yma efo pobl hyfryd a tiwtor bendigedig. Dw i wedi bod adra un wythnos ac yn barod dw i'n gwybod rhaid i mi ddychwelyd. Diolch i bawb a roddodd gyfle i mi."

Mae rhaglen gyrsiau 2014 Nant Gwrtheyrn allan a medrwch gael copi trwy gysylltu â'r Nant, post@nantgwrtheyrn.org neu ffonio 01758 750334.



***Sarah Hattle***

Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 11

## Lowri a Phil ar y Carped Coch yn Las Vegas




Llongyfarchiadau i Phil Rowlands, Caerdydd am gael ei enwebu am wobr Cynhyrchiad Albwm Clasurol yng nghystadleuaeth y 'Latin Grammy Awards'. Dyma'i lun gyda'i wraig Lowri, merch Dr. Pat Williams, ar y carped coch yng Nghanolfan Bae Mandalay, Las Vegas cyn y seremoni wobrwyo.

***Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf, 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW***

Archebwch ymlaen llaw yn bresant yn 2014

**(Gol.), John Gwynfor Jones,**

**DYDDIAU O LAWEN CHWEDL: HANNER CANMLWYDDIANT CYHOEDDIADAU MODERN CYMREIG 1963-2013 (LERPWL)**

Pris £10. ISBN:

Dethlir yn y gyfrol hanes cyhoeddi yn Gymraeg yng Nghwm Cynon, Lerpwl a Llanddewi Brefi. Ceir ysgrifau gan yr athrawon Brynley Roberts, E. Wyn James, D. Ben Rees a J. Gwynfor Jones a rhestr gyflawn o holl gyhoeddiadau y Wasg a baratowyd gan Menna Evans. Bydd y gyfrol yn llenwi bwlch ym myd cyhoeddi.

# CORNEL Y TRYSORYDD

## CHWEFROR 2014

| | |
|---|---|
| MRS NAN HUGHES PARRY, WOOLTON | £20.00 |
| MRS MARY C EVANS, NEFYN A SIONED KENYON, LERPWL | £55.00 |
| MRS GWERFYL JONES, NESTON | £24.00 |
| YR ATHRO HUW REES, MOSSLEY HILL | £30.00 |
| MR GORDON SHORT, LERPWL | £25.00 |
| MRS RHIANNON LIDDELL, WAVERTREE | £21.00 |
| MR GWYNFOR DAVIES, WIDNES | £15.00 |
| MR A MRS CLIFFORD OWEN, LLANFAIRFECHAN | £20.00 |
| MRS LOIS MURPHY, MANCEINION | £25.00 |
| CYNGOR LLYFRAU CYMRU (AM DAFLEN Y LLYFRAU) | £50.00 |
| **Cyfanswm** | **£285.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

***Myfyrdod y Mis***

# Y GRAWYS

Roedd y Grawys yn arfer dynodi Gwanwyn a dyna oedd gred yr hen dadau ond nid felly heddiw. Mae'n adeg greda i, sy'n arwain at fywyd newydd a thyfiant ysbrydol. Serch hyn mae'r syniad poblogaidd o'r Grawys ydy "rhoi fyny pethau" gan arwain at paratoad hunanan-disgyblaeth ac mae hyn yn iawn ond wrth feddwl yn ddyfnach mae hyn yn rhy gul oherwydd mae'r Grawys real yn arwain at amser sancteiddhad a thyfiant mewnol trwy hunan archwiliad, edifeirwch, a maddeuant. Fel ddywedodd Tom Nefyn ers talwm mewn pregeth "adfer dymuniad gonest yr enaid sydd ym mhawb". Y bererindod gyda Christ "O Fethlehem i'r Groes" a theimlo'r pwrpas a'r poen y siwrna' sy'n gweinidogaethu i'r ysbryd ac yn meithrin cyfanrwydd. Adeg i lenwi ein meddyliau fel ddywedodd Paul, a'r pethau sydd yn dda a phrydferth sy'n deilwng o'n haddoliad – hynny yw – prydferthwch sanctaidd.

Wel, ble mae dechrau heddiw? Gadewch i ni fod yn onest mae Pechod (sylwch P mawr) yn cynyddu ar draws y byd, mor gyffredin a heintus ac mor dreiddiol. Pa le bynnag edrychwch ac ym mhob ran o fywyd fe gewch "sleaze" o ryw fath. Rydym heddiw fel petasem yn gloddesta ar dweud celwydd, twyllo ac ym mha le mae cyfiawnder? Mae'n edrych fel bod pob peth ar i lawr. Nid adeg i ddod a sensoriaeth i fewn Mae'n adeg i bob Cristion cywir weddi allan am hunan ddisgyblaeth – *Licence is liberty without discipline* – Trwydded "anything goes" sydd heddiw ac mae yna waith mawr codi o'r budreddi

Af yn ôl dros hanner can mlynedd i gapel Waunfawr ac i bregeth yr annwyl Parch (wedyn yr Athro) Harri Williams MA yn dweud fod meithrin y prydferthwch o sancteiddrwydd yn dasg i bob unigolyn ac hefyd gymdeithas. Mae hyn, meddai, yn gyfrifoldeb ar bawb beth bynnag yw eu daliadau crefyddol i weiddi allan mewn geiriau, mewn gweithred ac i ddangos yn eu ffordd o fyw prydferthwch y bywyd sy'n llawn o'r pethau sy'n dda ac yn deilwng o'n haddoliad. Beth bynnag fe wnaeth Harri Williams argraff ddofn ar ni'r ieuenctid a hyd heddiw does dim llawer os rywfaint i ddweud am ein bywyd. Credaf ein bod wedi ceisio cadw i'r gorau diolch iddo a heddwch i'w lwch.

Ac wrth edrych yn ôl ar fy mywyd brau ac wedi ceisio cadw at y "pethau fel pregethwyr lleyg a diacon" rydw i wedi dod i'r penderfyniad nad oes dim gwell dylanwad yn yr Eglwys nag ym myd plentyn. Yn fy mhrofiad fel athro mae'r plentyn yn awyddus i wybod hanes Iesu Grist. Meddyliaf am yr holl ganu ar emynau heb gopi ym mhob man, yr Ysgol Sul a'r Ysgol ddyddiol dysgodd fel ddywedodd Tom Nefyn "Argraffdy'r Ysbryd Glan". Mae'r plant yn cael gwasanaethau Bedydd ac fe ddylem bwyso ar rieni i ddod a'r plant i'r oedfa a chael cyfarfodydd iddynt yn reolaidd. Does dim eisiau pwyso ar credo nac athrawiaethau ond ceisio'r plant a'u rhieni i weld prydferthwch bywyd sanctaidd a sut fedrem ei feithrin yn y byd. Yr unig athrawiaeth imi ar hyd fy mywyd ydy bod pwerau terfynol yr hen greadigaeth yma yn gariadus ac yn sanctaidd ac o'n bwrw ein hunain arnynt eu bod yn gyfryngau iachawdwriaeth ac yma rydym i gyd yn un. Heddiw, yn sicr, dim ond cyffyrddiad gyda'r da a'r glân gall tyfiant ysbrydol gymeryd lle. Mae geiriau yr Athro Keri Evans yn dod yn ôl "Does neb gwell na phlentyn i ddeall Iesu Grist"!!

***ELWYN***

Page 1-12 9/7/14 14:11 Page 12

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £10.50 trwy'r post bob mis. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – gweler y manylion.
- **Rhifynnau nesaf yr Angor**
  **i) Rhifyn Mawrth 2014 –** erbyn bore Sadwrn, Chwefror 1 neu yng Nghapel Bethel, Auckland Road ar fore Sul, Chwefror 2 erbyn 11.30, neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk
  **ii) Rhifyn Ebrill 2014** – erbyn bore Sadwrn, 1 Mawrth neu yng Ngŵyl Dewi Lerpwl yn Aigburth y noson honno (o 7.30 i 9.30).
  **iii) Rhifyn Mai 2014** erbyn bore Llun, 31 Mawrth i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis)

***Cyfarfod Dosbarth Lerpwl o Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain***

# DATHLU YM MHENBEDW

**Oedfa i Gofio am Gyfraniad y Diwygiwr o Drefeca,**

## Howell Harris (1714-2014)

**ar bnawn Sul, 16 Mawrth, 2014**
**am 2.30 o'r gloch**
**yng Nghapel Seion, Laird Street, Penbedw**
**pryd y cymerir rhan gan gapeli Glannau Mersi.**
Llywydd: Mr. John P. Lyons
Organydd: Mr. Terry O'Neill.
*Darperir te yn dilyn yr oedfa*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905